CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dydd Gwener, 17eg Gorffennaf, 2020

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd G. Caron [Cadeirydd]

Y Cynghorwyr:
Cyng. P. Lewis, Cyng. C. Lloyd, Cyng. M. Norris, Cyng. J. Pugh Roberts, Cyng. A. Shotton a'r Cyng. D.E. Williams

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
C. Moore, Swyddog Adran 151 y Cydbwyllgor (CSG)
L.R. Jones, Swyddog Monitro'r Cydbwyllgor (CSG)
N. Aurelius, Prif Weithredwr Cynorthwyol – Adnoddau (CST)
B. Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol (RCT)
J. Dong, Prif Swyddog Trysorlys a Thechnegol (DaSA)
D. Edwards, Pennaeth Cyllid (CG)
P. Latham, Rheolwr Cronfa Bensiwn (CSF)
C. Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau (DC)
A. Parnell, Rheolwr Buddsoddiadau y Trysorlys a Phensiwn (CSG)
J. Thomas, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol (CSP)
T. Williams, Uwch Swyddog Gwasanaethau Ariannol (CSG)
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (CSG)

Hefyd yn bresennol:
E. Gough, Link Fund Solutions
D. Lowman, Link Fund Solutions
K. Midl, Link Fund Solutions
J. Leggate, Russell Investments
A. Quinn, Russell Investments
F. Hope, Hymans Robertson
J. Wright, Hymans Robertson

Rhith-Gyfarfod : 10.00 yb – 11.35 yb

1. PENODI CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi'r Cynghorydd Glyn Caron yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.

Diolchwyd i Gadeirydd y llynedd am ei waith caled a'i gyfraniad i'r Cydbwyllgor yn ystod ei gyfnod fel Cadeirydd.

2. PENODI IS-GADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR LLYWODRAETHU AR GYFER Y FLWYDDYN CALENDR NESAF

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i benodi'r Cynghorydd Clive Lloyd yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn galendr nesaf.

3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd Chris Weaver (Cyngor Sir Caerdydd)

4. DATGANIADAU O FUDDIANT

Y Cynghorydd	Natur y buddiant personol
G. Caron	Aelod o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf. Mae ei wraig yn aelod gohiriedig o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf; Mae'r mab-yng-nghyfraith yn aelod o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf
P. Lewis	Aelod o Gronfa Bensiwn Powys
C. Lloyd	Aelod o Gronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe
M. Norris	Aelod o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf
A. Shotton	Aelod o Gronfa Bensiwn Clwyd; Mae ei wraig yn aelod o Gynllun Pensiwn Clwyd
E. Williams	Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed

[SYLWER: Ceir eithriad yn y Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau, sy'n caniatáu i aelod a benodwyd neu a enwebwyd gan ei awdurdod i gorff perthnasol ddatgan y buddiant hwnnw ond aros a chymryd rhan yn y cyfarfod.]

5. TO LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 12 MAWRTH 2020

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Cyd-bwyllgor Llywodraethu a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2020, gan eu bod yn gofnod cywir.

6. DATGANIAD/ARCHWILIAD BLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 y Cyd-bwyllgor y Ffurflen Flynyddol a oedd wedi ei harchwilio ar gyfer 2019/20. Roedd y Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol o ran y Ffurflen Flynyddol wedi'u paratoi gan yr Awdurdod Cynnal ac roedd adran Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cynnal Adolygiad Archwilio Mewnol. Archwiliwyd y Ffurflen Flynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Cyd-bwyllgor yn cael ei ofyn i gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2019/20 nad oedd wedi cael ei archwilio, ac nid ei nodi fel y cyfeiriwyd yn yr adroddiad.

PENDERFYNWYD

6.1 derbyn llythyr Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch ffurflen flynyddol Partneriaeth Pensiwn Cymru 2019/20;

6.2 cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol oedd wedi'i harchwilio ar gyfer 2019/20;
6.3 cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon oedd heb ei archwilio ar gyfer 2019/20.

7. DIWEDDARIAD GAN YR AWDURDOD CYNNAL

Cafodd y Cyd-bwyllgor ddiweddariad o ran cynnydd yn y meysydd allweddol canlynol:-

- Llywodraethu;
- Sefydlu parhaus;
- Gwasanaethau gweithredwyr;
- Cyfathrebu ac adrodd;
- Hyfforddiant a chyfarfodydd; ac
- Adnoddau, cyllideb a ffioedd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL i dderbyn y diweddariad gan yr Awdurdod Cynnal

8. POLISI GWEITHDREFNAU A GWRTHDARO BUDDIANNAU

Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor bod ganddo ddyletswydd ymddiriedol a chyfreithiol i weithredu er budd rhanddeiliaid a buddiolwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru, ond nid oedd hyn yn atal personél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru rhag ymgymryd â rolau neu gyfrifoldebau eraill, a allai arwain at wrthdaro buddiannau.

Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o ddilyn egwyddorion llywodraethu da a sefydlu polisi gweithdrefnau a gwrthdaro buddiannau i amlinellu sut y caiff gwrthdaro ei nodi, ei reoli a'i fonitro.

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau Partneriaeth Pensiwn Cymru a oedd yn gymwys i holl bersonél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru. Byddai rhestr gyfredol o bersonél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gael ar y wefan a byddai'n cael ei diweddaru, yn ôl yr angen. Byddai Cofrestr Gwrthdaro Buddiannau yn cael ei chynnal gan yr Awdurdod Cynnal. Byddai'r polisi'n cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion a'i ddiweddaru os byddai angen, a hynny'n flynyddol. Nodwyd y gallai'r polisi gael ei adolygu neu ei ddiwygio'n fwy aml os bydd angen i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ystyried canllawiau neu reoliadau perthnasol. Byddai polisi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn eitem flynyddol ar agenda'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a fyddai'n sicrhau bod y Bartneriaeth yn darparu tryloywder llwyr o ran gwrthdaro buddiannau o leiaf unwaith y flwyddyn.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid cymeradwyo Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau Partneriaeth Pensiwn Cymru.

9. POLISI RISGIAU YN SGIL YR HINSAWDD

Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor, yn unol â Pholisi Buddsoddi Cyfrifol cymeradwy Partneriaeth Pensiwn Cymru a'i hymrwymiad tuag at Fuddsoddi Cyfrifol, bod Polisi Risg yn sgil yr Hinsawdd wedi'i ddatblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Mae'r polisi hwn yn nodi dull y Bartneriaeth o fynd i'r afael â gofynion yr Awdurdodau Cyfansoddol o ran risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a monitro'r risgiau hyn. Cafodd ei ddatblygu yn unol â barn ac amcanion y Bartneriaeth.

Byddai'r polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol a byddai'r Bartneriaeth yn paratoi ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn manylu ar y camau a gymerwyd i gyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd.

Cyfeiriwyd at baragraff 8 y Polisi ac awgrymwyd, yn wyneb y ffaith nad oes gan Lywodraeth Cymru ddylanwad uniongyrchol dros y Gronfa Bensiwn, y dylid diwygio'r paragraff fel a ganlyn:-

“Bydd y polisi hwn yn rhoi sylw i Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli a Buddsoddi Cronfeydd) 2016 ac unrhyw ganllawiau perthnasol a ddarperir gan Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun, bydd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd a bydd y polisi yn nodi Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.”

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid cymeradwyo Polisi Risg yn sgil yr Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru, i gynnwys y gwelliant uchod.

10. POLISI RISG A CHOFRESTR RISG PPC

Dywedwyd wrth y Cyd-bwyllgor bod Polisi Risg a Chofrestr Risg wedi'u datblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. Roedd y Polisi Risg hwn yn adlewyrchu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru o'r farn y bydd llywodraethu da a gwell tryloywder yn gwella'r broses o wneud penderfyniadau ac yn cyflawni gwell amcanion ar gyfer rhanddeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod gan holl Bersonél a Darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru rôl i'w chwarae o ran nodi, deall, rheoli a monitro risgiau gwirioneddol sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Roedd y polisi'n amlinellu'r canlynol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru:

- Credoau ac amcanion sy'n ymwneud â risg;
- Strategaeth risg;
- Nodi a deall risgiau;
- Rheoli a monitro risg.

Roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi llunio Cofrestr Risg sy'n dogfennu, yn rheoli ac yn monitro risgiau. Pwrpas Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru oedd:

- Amlinellu prif risgiau a ffactorau Partneriaeth Pensiwn Cymru a allai gyfyngu ar ei gallu i gyflawni ei hamcanion;
- Mesur difrifoldeb a thebygolrwydd y risg sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru;
- Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg Partneriaeth Pensiwn Cymru;

- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyniad i gael rhagor o strategaethau lliniaru risg.

Y Gweithgor Swyddogion fyddai'n gyfrifol am gynnal Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru ac adrodd ynghylch unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn chwarterol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Polisi Risg a Chofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru.

11. DIWEDDARIAD GAN Y GWEITHREDWR

Cafodd y Cyd-bwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan Karl Midl ac Eamonn Gough o Link Fund Solutions am gynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol:-

- Daliadau cyfredol y Gronfa;
- Cynnydd Iansio'r Gronfa;
- Y wybodaeth gorfforaethol ddiweddaraf ac ymgysylltu

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei derbyn.

12. ADRODDIADAU PERFFORMIAD FEL AR 31 MAWRTH 2020

Cafodd y Cyd-bwyllgor gyflwyniad ar yr adroddiadau perfformiad ar gyfer y Gronfa Tyfu Byd-eang, y Gronfa Cyfleoedd Byd-eang a Chronfa Cyfleoedd y DU ar 31 Mawrth 2020.

Nodwyd bod gwerthoedd marchnad pob un o'r 3 Is-gronfa wedi gostwng yn ystod y chwarter diwethaf. Roedd Cronfa Tyfu Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi gostwng o £2,373,976,400 i £1,961,972,648, Cronfa Cyfleoedd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru o £2,233,379,922 i £1,881,872,223 a Chronfa Cyfleoedd y DU o £685,363,821 i £480,052,962. Roedd y Gronfa Tyfu Byd-eang a Chronfa Cyfleoedd y DU wedi tanberfformio o ran eu meincnodau o 0.82% (gros) / 1.21% (net) a 3.64% (gros)/3.81% (net) yn y drefn honno. Roedd y Gronfa Cyfleoedd Byd-eang wedi perfformio'n well na'r meincnod o 1.39% (gros)/1.05% (net).

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL bod yr adroddiadau perfformiad ar gyfer y Gronfa Tyfu Byd-eang, y Gronfa Cyfleoedd Byd-eang a Chronfa Cyfleoedd DU Partneriaeth Pensiwn Cymru ar 31 Mawrth, 2020 yn cael eu derbyn.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**